



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ar gynnig ar gyfer rheoliadau o
dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
2016 a phedair dogfen ganllaw

Dyddiad cyhoeddi: **19 Hydref 2016**
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn **13 Ionawr 2017**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar gynnig ar gyfer rheoliadau i bennu gweithdrefnau ar gyfer adolygu penderfyniadau i ddynodi asedau hanesyddol a chanllawiau statudol drafft ar lunio a defnyddio cofnodion amgylchedd hanesyddol. Mae'r naill a'r llall yn ofynnol o dan ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cyflwyno tri chanllaw arfer gorau drafft i chi eu hystyried. Datblygwyd y rhain fel elfennau rhaglen ehangach i wella'r modd y caiff amgylchedd hanesyddol Cymru ei ddiogelu a'i reoli sy'n gysylltiedig â'r broses o roi Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ar waith.

Sut i ymateb

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 13 Ionawr 2017. Gallwch ymateb drwy e-bost neu'r post.

E-bost

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 5 a'i hanfon i:

historicenvironmentleg@cymru.gsi.gov.uk

Post

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 5 a'i hanfon i:

Rheoliadau a Chanllawiau Ymgynghoriad 2
Y Tîm Deddfwriaeth a Pholisi
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents/enacted>

Ymgynghoriad ar bennod 6 o *Bolisi Cynllunio Cymru*, 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' (wedi dod i ben)
<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/new/idiadau-arfaethedig-i-bolisi-cynllunio-cymru-pennod-6-yr-amgylchedd-hanesyddol>

Ymgynghoriad ar Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (wedi dod i ben)
<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/nodyn-cyngor-technegol-arfaethedig-24-yr-amgylchedd-hanesyddol>

Ymgynghoriad ar apeliadau, costau a symiau dyddiol safonol
<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/apeliadau-costau-symiau-dyddiol-safonol>

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy
<http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Conservation Principles CY.pdf>

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:

historicensvironmentleg@cymru.gsi.gov.uk

Y Tîm Deddfwriaeth a Pholisi
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

01443 336091 / 01443 336090

Diogelu data

Sut y defnyddir y sylwadau a'r wybodaeth y byddwch yn eu rhoi i ni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cyflwyniad

1. Dyma'r ail mewn cyfres o ymgynghoriadau ar gynigion ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i weithredu ac ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a chyfres o ganllawiau cysylltiedig.
2. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016, yn gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru.¹ Mae'n darparu sail ar gyfer pecyn integredig o is-ddeddfwriaeth, polisi a chynghor cynllunio newydd ac wedi'i ddiweddarau a chanllawiau ar amrywiaeth eang o bynciau. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r gwaith o reoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol yn ofalus yn unol ag athroniaeth ac arfer cadwraeth presennol.

Rhaglen o ymgynghoriadau

3. Mae polisi a chynghor cynllunio yn gonglfaen ar gyfer rheoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol drwy'r system gynllunio. Daeth ymgynghoriad deuddeg wythnos ar fersiwn ddiwygiedig o'r bennod ar yr amgylchedd hanesyddol (pennod 6) yn *Polisi Cynllunio Cymru* i ben ar 13 Mehefin 2016.² Caiff y bennod, sydd wedi'i diwygio yn sgil yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, ei chyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn. Roedd y fersiwn newydd ddrafft o *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn destun ymgynghoriad pellach dros yr haf.³ Daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 3 Hydref a chaiff dadansoddiad a fersiwn derfynol o *Nodyn Cyngor Technegol 24* eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2017.
4. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar *Nodyn Cyngor Technegol 24*, aethom ati i gasglu sylwadau ar sawl cynnig ar gyfer rheoliadau a dogfennau canllaw arfer gorau. Rydym bellach yn ystyried yr ymatebion a'r nod yw cyflwyno'r rheoliadau a chyhoeddi fersiynau terfynol o'r canllawiau yn ystod gwanwyn 2017.
5. Cynhelir ymgynghoriadau pellach yn 2017 ar gynigion ychwanegol ar gyfer is-ddeddfwriaeth i weithredu darpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a dogfennau canllaw eraill.

Yr ymgynghoriad presennol

6. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â phum pwnc:
 - A. Cynigion ar gyfer rheoliadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 i bennu gweithdrefnau ar gyfer adolygu penderfyniad i ddynodi heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig (paragraffau 9-54)

¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents/enacted>

² <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/newidiadau-arfaethedig-i-bolisi-cynllunio-cymru-pennod-6-yr-amgylchedd-hanesyddol>

³ <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/nodyn-cyngor-technegol-arfaethedig-24-yr-amgylchedd-hanesyddol>

- B. Canllawiau statudol drafft ar gyfer rhai cyrff cyhoeddus — *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio* — fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (paragraffau 55-60)
 - C. Canllawiau arfer gorau drafft: *Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru* (paragraffau 61-65)
 - D. Canllawiau arfer gorau drafft: *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* (paragraffau 66–69)
 - E. Canllawiau arfer gorau drafft: *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru* (paragraffau 70–73).
7. Mae'r ymgynghoriad yn trafod pob pwnc yn fras, yn gofyn cwestiynau perthnasol a, lle y bo'n briodol, yn cyfeirio at yr atodiad sy'n cynnwys y canllawiau drafft.
8. Gan fod yr ymgynghoriad hwn yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, efallai na fydd rhai o'r cwestiynau o ddiddordeb i chi neu efallai na fyddant yn rhan o'ch profiad. Felly, mae croeso i chi ateb cymaint neu gyn lleied o'r cwestiynau ag a ddymunwch.

A. Cynnig ar gyfer rheoliadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 i bennu gweithdrefnau ar gyfer adolygu penderfyniad i ddynodi heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig

9. Mae Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979 ('Deddf 1979') yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal cofrestr o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol ('y Gofrestr'). Yn yr un modd, mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ('Deddf 1990') yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
10. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') yn diwygio Deddfau 1979 a 1990 ac yn gosod rhwymedigaethau newydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r perchennog a'r deiliad ac unigolion priodol eraill wrth ystyried dynodi ased hanesyddol fel heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig neu wneud newidiadau i ddynodiad presennol.
11. Mae Deddf 2016 hefyd yn cyflwyno gwarchodaeth interim er mwyn cymhwyso'r mwyafrif o ddarpariaethau Deddf 1979 neu Ddeddf 1990 at heneb neu adeilad hanesyddol y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig ei ddynodi.
12. At hynny, os bydd Gweinidogion Cymru yn cofrestru heneb, yn gwneud newid perthnasol i gofnod ar y Gofrestr, neu'n rhestru adeilad, mae Deddf 2016 yn rhoi'r hawl i berchennog neu ddeiliad, mewn rhai amgylchiadau, ofyn i Weinidogion Cymru adolygu'r penderfyniad i ddynodi.

13. Mae Deddf 2016 yn nodi tair gweithdrefn adolygu:
 - cynrychioliadau ysgrifenedig,
 - gwrandawriad
 - ymchwiliad lleol cyhoeddus.
14. Bydd Gweinidogion Cymru yn penodi'r Arolygiaeth Gynllunio i gynnal pob adolygiad ar eu rhan. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn penderfynu ar y weithdrefn fwyaf priodol, neu'r cyfuniad mwyaf priodol o weithdrefnau, ar gyfer cynnal adolygiad a bydd y penderfyniad hwnnw yn derfynol. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r Gofrestr neu restr yn sgil penderfyniad adolygiad a gynhaliwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio.
15. Disgwylir y daw'r darpariaethau sy'n ymwneud ag ymgynghori, gwarchodaeth interim ac adolygu i rym yn 2017, ar ôl i Weinidogion Cymru bennu'r rheoliadau sydd eu hangen i sefydlu strwythur ar gyfer adolygiadau.
16. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi'r canlynol mewn rheoliadau:
 - ar ba sail y gellir gwneud cais am adolygiad;
 - y wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi i Weinidogion Cymru, neu'r wybodaeth y gall Gweinidogion Cymru ofyn amdani, mewn perthynas â chais am adolygiad;
 - ar ba ffurf a thrwy ba ddull y dylid gwneud cais;
 - y cyfnod y mae'n rhaid gwneud y cyfryw gais oddi mewn iddo.

Gall Gweinidogion Cymru hefyd wneud unrhyw ddarpariaeth arall mewn rheoliadau y credant sy'n briodol mewn perthynas ag adolygiadau.
17. Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r trefniadau arfaethedig ar gyfer cynnal yr adolygiadau hyn, a fodelwyd ar y systemau presennol ar gyfer apelïadau cynllunio ac apelïadau caniatâd adeilad rhestredig.

Y rheswm dros gynnal adolygiad

18. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu cofrestru heneb, gwneud newid perthnasol i gofnod ar y Gofrestr, neu restr adeilad, mae'n rhaid iddynt gyflwyno hysbysiad i'r perchennog a'r deiliad. Yn ogystal â nodi'r dyddiad y bydd y dynodiad yn dod i rym a'r warchodaeth interim yn dod i ben, mae'n rhaid i'r hysbysiad nodi, er gwybodaeth i'r perchennog a'r deiliad, y gellir gwneud cais i'r Arolygiaeth Gynllunio adolygu'r dynodiad.
19. Mae'n rhaid i'r rheswm dros gynnal adolygiad adlewyrchu'r materion a ystyriwyd gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu cofrestru heneb neu restru adeilad, a nodir mewn meini prawf statudol perthnasol.

Henebion cofrestredig

20. Mae'n rhaid i heneb fod o bwys cenedlaethol er mwyn iddi gael ei chofrestru o dan Ddeddf 1979, ond nid oes rhwymedigaeth ar

Weinidogion Cymru i ddynodi henebion cymwys.⁴ Y rhesymau dros gynnal adolygiad fydd:

- nid yw'r heneb o bwys cenedlaethol;
- nid yw'r ardal gofrestredig yn cyfateb â graddau'r heneb; neu
- mae gwall ffeithiol wrth nodi'r safle.

Adeiladau rhestredig

21. Mae Deddf 1990 yn nodi bod yn rhaid i adeilad fod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig er mwyn iddo fod yn gymwys i'w restru. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru restru unrhyw adeilad sy'n bodloni'r meini prawf ac, wrth ddod i benderfyniad, dim ond materion sy'n ymwneud â diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr adeilad y gallant eu hystyried.⁵ Ni ellir ystyried materion eraill, fel y gost sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r adeilad neu ei atgyweirio, ystyriaethau cynllunio neu bwysigrwydd lleol. Y rhesymau dros gynnal adolygiad fydd:
- nid yw'r adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig;
 - mae gwall ffeithiol wrth nodi'r adeilad; neu
 - mae tystiolaeth ychwanegol sylweddol nad ystyriwyd yn flaenorol sy'n ymwneud â diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr adeilad.

C1.	Ydych chi'n cytuno â'r rhesymau dros adolygu'r penderfyniad i ddynodi henebion cofrestredig?
------------	---

C2.	Ydych chi'n cytuno â'r rhesymau dros adolygu'r penderfyniad i ddynodi adeiladau rhestredig?
------------	--

Pryd a sut y dylid gwneud cais am adolygiad?

22. Dylai cais am adolygiad gael ei anfon i'r Arolygiaeth Gynllunio o fewn tri mis i dderbyn yr hysbysiad dynodi. Gan fod Gweinidogion Cymru yn rhan o'r broses adolygu, dylid cyflwyno copi o'r cais iddynt hwy hefyd. Bydd Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru yn yr adolygiadau.
23. Dylai'r cais gael ei wneud ar ffurflen sydd ar gael gan yr Arolygiaeth Gynllunio; caiff dolen i'r wefan ei nodi yn yr hysbysiad dynodi a anfonir at y perchennog a'r deiliad.
24. Bydd angen cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn cais am adolygiad:
- a. enw'r heneb neu'r adeilad rhestredig;
 - b. enw a chyfeiriad y ceisydd;

⁴ Cyhoeddir y meini prawf a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru yn atodiad 3 o *Gylchlythyr Swyddfa Cymru 60/96 — Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg* (http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/WO_Circular_60_96_EN_CY.pdf).

⁵ Cyhoeddir y meini prawf a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru wrth restru adeiladau yn atodiad C o *Gylchlythyr Swyddfa Cymru 61/96 — Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth* (http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/WO_Circular_61_96_CY.pdf).

- c. enw a chyfeiriad unrhyw un sy'n cynrychioli'r ceisydd ac, os bydd angen, datganiad o'r cyfeiriad i'w ddefnyddio ar gyfer gohebiaeth sy'n ymwneud â'r adolygiad;
- d. datganiad sy'n nodi'r rheswm dros yr adolygiad;
- e. y weithdrefn sy'n cael ei ffafrio gan y ceisydd ar gyfer cynnal yr adolygiad;
- f. copi o lythyr Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r perchennog/deiliad o'r penderfyniad i ddynodi'r ased;
- g. pob mater y mae'r ceisydd yn bwriadu ei godi yn yr adolygiad, gan gynnwys dogfennau a thystiolaeth arall y mae'r ceisydd yn bwriadu eu cyflwyno.

C3.

Ydych chi'n cytuno y dylai cais am adolygiad gael ei wneud o fewn tri mis i dderbyn hysbysiad dynodi? Os nad ydych, faint o amser y dylid ei roi?

C4.

A ddylid gofyn am unrhyw wybodaeth arall yn y cais am adolygiad? Os dylid, rhwch fanylion.

Gweithdrefn adolygu — Cynrychioliadau ysgrifenedig

- 25. Ar ôl derbyn cais dilys, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn hysbysu'r ceisydd a Gweinidogion Cymru o'r dyddiad y bydd yr adolygiad yn dechrau ynghyd â'r weithdrefn, neu'r cyfuniad o weithdrefnau, yr ystyrir sydd fwyaf priodol ar gyfer yr adolygiad.
- 26. O fewn wythnos i dderbyn yr hysbysiad, bydd Gweinidogion Cymru yn anfon copïau o unrhyw gyflwyniadau a dderbyniwyd gan bartïon â diddordeb yn ystod yr ymgynghoriad dynodi i'r Arolygiaeth Gynllunio a'r ceisydd.
- 27. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd yn hysbysu partïon â diddordeb am y canlynol:
 - bod adolygiad wedi'i ddechrau;
 - y caiff y wybodaeth a gyflwynwyd ganddynt mewn ymgynghoriadau blaenorol eu hystyried wrth adolygu'r dynodiad;
 - gall gwybodaeth berthnasol arall ei hanfon i'r Arolygiaeth Gynllunio o fewn pedair wythnos i'r dyddiad dechrau.
- 28. Gall yr Arolygiaeth Gynllunio ofyn i unrhyw berson neu gorff roi wybodaeth sy'n berthnasol i'r adolygiad. Mae'n rhaid i gopi o unrhyw wybodaeth ychwanegol a dderbynnir yn ystod yr adolygiad gael ei roi i'r ceisydd a Gweinidogion Cymru.
- 29. Gall yr Arolygiaeth Gynllunio, gyda chydsyniad y perchennog a'r deiliad, ymweld â'r ased hanesyddol dan sylw.
- 30. O fewn pedair wythnos i'r dyddiad dechrau, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru anfon datganiad sy'n nodi unrhyw wybodaeth neu faterion pellach

yr hoffent iddynt gael eu hystyried wrth adolygu'r dynodiad i'r Arolygiaeth Gynllunio a'r ceisydd.

31. Bydd gan y ceisydd a Gweinidogion Cymru chwe wythnos o'r dyddiad dechrau i gynnig sylwadau ar unrhyw gynrychioliadau a dderbynnir gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Gall partïon eraill â diddordeb gynnig sylwadau yn ystod y cyfnod hwnnw hefyd. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr Arolygiaeth Gynllunio ganiatáu amser ychwanegol.
32. Unwaith y bydd y cyfnod a ganiateir ar gyfer cynnig sylwadau wedi dod i ben, gall yr Arolygiaeth Gynllunio wneud y canlynol:
 - dod i benderfyniad ar yr adolygiad yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael;
 - ymestyn yr adolygiad fel y bo angen er mwyn casglu tystiolaeth bellach, er enghraifft, drwy waith ymchwil hanesyddol neu ymchwiliadau eraill, ar yr amod y caiff pob un o'r partïon i'r adolygiad eu hysbysu; neu
 - penderfynu bod angen gweithdrefn arall - gwrandawriad neu ymchwiliad lleol cyhoeddus - er mwyn llywio'r broses benderfynu.
33. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cyflwyno hysbysiad o'i benderfyniad neu unrhyw angen i gynnal ymchwiliadau neu weithdrefnau pellach i'r ceisydd, Gweinidogion Cymru a phob parti arall â diddordeb.

Gweithdrefn adolygu — Gwrandawriad

34. Mae gwrandawriad yn broses gymharol anffurfiol lle mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn casglu tystiolaeth ar lafar i lywio'r broses o ddod i benderfyniad ar adolygiad. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn nodi'r materion i'w trafod yn seiliedig ar y cynrychioliadau a'r dystiolaeth a dderbyniwyd ganddi.
35. Os bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn penderfynu bod angen cynnal gwrandawriad i wneud penderfyniad ar adolygiad, bydd yn hysbysu'r ceisydd, Gweinidogion Cymru ac unrhyw berson neu gorff sydd naill ai wedi gwneud cynrychioliad eisoes neu a all roi gwybodaeth ychwanegol sydd ei hangen, ym marn yr Arolygiaeth Gynllunio, i ddod i benderfyniad ar yr adolygiad.
36. Gall y ceisydd, Gweinidogion Cymru ac unrhyw berson neu gorff a wahoddir gan yr Arolygiaeth Gynllunio ymddangos fel tystion yn y gwrandawriad. Gall unrhyw berson sydd â hawl i ymddangos gael ei gynrychioli gan rywun arall.
37. Dylai'r materion i'w hystyried gael eu nodi'n llawn yn yr hysbysiad o wrandawriad. Er mai dim ond y materion a restrir yr ymdrinnir â hwy mewn gwrandawriad fel arfer, gall yr Arolygiaeth Gynllunio ganiatáu i faterion eraill gael eu hystyried.
38. Mater i'r Arolygiaeth Gynllunio fydd y modd y caiff gwrandawriad ei gynnal. Er enghraifft, gall penderfynu bwrw ati yn absenoldeb person

sydd â hawl i ymddangos, neu ohirio gwrandawriad tan ddyddiad diweddarach. Os cyhoeddir bod gwrandawriad yn cael ei ohirio wrth iddo fynd rhagddo, ni fydd angen rhoi hysbysiad pellach i'r sawl sy'n cymryd rhan.

39. Gall yr Arolygiaeth Gynllunio ystyried cynrychioliadau ysgrifenedig neu dystiolaeth a dogfennaeth arall a dderbyniwyd cyn neu yn ystod y gwrandawriad ar yr amod bod y wybodaeth honno'n cael ei datgelu i'r ceisydd a Gweinidogion Cymru.
40. Ar ôl i'r gwrandawriad ddod i ben, gall yr Arolygiaeth Gynllunio ddod i benderfyniad ar yr adolygiad neu geisio gwybodaeth bellach am y materion a godwyd.
41. Unwaith y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio wedi dod i benderfyniad, bydd yn hysbysu'r ceisydd, Gweinidogion Cymru a phob parti arall â diddordeb o ganlyniad yr adolygiad.

Gweithdrefn adolygu — Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus

42. Ymchwiliad lleol cyhoeddus yw'r weithdrefn apelio fwyaf ffurfiol. Caiff ei gynnal er mwyn ymchwilio i dystiolaeth a phrofi'r dystiolaeth honno'n ffurfiol, fel arfer drwy holi tystion. Er nad yw'n llys barn, gall y broses ymddangos yn eithaf tebyg ac, yn aml, defnyddir cynrychiolwyr cyfreithiol.
43. Os bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn penderfynu bod angen cynnal ymchwiliad er mwyn gwneud penderfyniad ar adolygiad, mae'r gweithdrefnau yn eithaf tebyg i'r rhai ar gyfer gwrandawriad (a ddisgrifir ym mharagraffau 35-41 uchod). Felly, dim ond gwahaniaethau arwyddocaol a nodir yma.
44. Gan fod ymchwiliad yn agored i'r cyhoedd, gall yr Arolygiaeth Gynllunio gyhoeddi pwnc yr ymchwiliad, y dyddiad y'i cynhelir a'i leoliad fel yr ystyrir sy'n briodol.
45. Os oes angen tyst i roi datganiad llawn sy'n nodi'r dadleuon a'r dystiolaeth a gyflwynir i'r ymchwiliad, dylai'r datganiad hwnnw hefyd restru enwau a chymwysterau perthnasol unrhyw berson arall a fydd yn siarad o blaid neu ar ran y tyst ac yn crynhoi'r dystiolaeth a gaiff ei rhoi. Gall yr Arolygiaeth Gynllunio ofyn am ragor o wybodaeth am faterion a nodir yn y cyfryw ddatganiadau.
46. Gall unrhyw berson sydd â hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad (neu ei gynrychiolydd) groesholi unrhyw dyst arall. Fodd bynnag, mater i'r Arolygiaeth Gynllunio fydd y modd y cynhelir yr ymchwiliad a gweithdrefnau'r ymchwiliad o hyd.
47. Ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben, gall yr Arolygiaeth Gynllunio ddod i benderfyniad ar yr adolygiad neu geisio gwybodaeth bellach am y materin a godwyd.

48. Unwaith y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio wedi dod i benderfyniad, bydd yn hysbysu'r ceisydd, Gweinidogion Cymru a phob parti arall â diddordeb o ganlyniad yr adolygiad.

C5.

A yw'r gweithdrefnau a amlinellir yn rhesymol ac yn deg i bawb sy'n cymryd rhan mewn adolygiadau dynodi, yn eich barn chi? Os nad ydynt, sut y gellid eu gwella?

Dyfarnu costau

49. Gallai ymddygiad afresymol person sy'n cymryd rhan mewn adolygiad - sy'n arwain, er enghraifft, at ganslo adolygiadau ar y funud olaf neu ohirio penderfyniadau - achosi oedi ac anghyfleustra sylweddol i'r bobl eraill sy'n cymryd rhan. Mae trefniadau apelio ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd cynllunio, sy'n debyg ar y cyfan i'r gweithdrefnau adolygu a ddisgrifir uchod, yn cynnwys darpariaethau ar gyfer dyfarnu costau er mwyn atal ymddygiad afresymol. Felly, caiff darpariaethau tebyg eu cynnig ar gyfer adolygiadau dynodi.
50. Costau Adran 332C: Bydd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi templed ar gyfer drafftio rheoliadau o dan Ddeddf 2016.
51. Mae Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yn paratoi i gyhoeddi canllawiau newydd ar ymddygiad afresymol a dyfarnu costau. Bydd ymgynghoriad ar ei chynigion, Apeliadau, costau a symiau dyddiol safonol', yn dod i ben ar 4 Tachwedd 2016.⁶ Y bwriad yw mabwysiadu'r canllawiau hyn ar gyfer dyfarnu costau yn ffurfiol.
52. Caiff cais i ddyfarnu costau ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio benderfynu arno, a bydd yr Arolygiaeth yn defnyddio'r canllawiau cynllunio newydd i asesu'r achos.
53. Gall cais am gostau gael ei gyflwyno ni waeth pa weithdrefn adolygu a ddefnyddiwyd a chan unrhyw barti a gymerodd ran mewn adolygiad. Gall yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd benderfynu dyfarnu costau heb fod cais yn cael ei gyflwyno.
54. Gall unrhyw barti fod yn atebol i dalu costau os bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn canfod ei fod wedi ymddwyn yn afresymol. Gall costau gwmpasu costau gweinyddol yr eir iddynt gan yr Arolygiaeth Gynllunio, yn ogystal â chostau sy'n gysylltiedig â gwrandawriad neu ymchwiliad na chaiff ei gynnal.

C6.

Ydych chi'n cytuno â'r mesurau arfaethedig ar gyfer dyfarnu costau er mwyn atal ymddygiad afresymol mewn adolygiadau dynodi? Os nad ydych, sut y gellid eu gwella?

⁶ <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/apeliadau-costau-symiau-dyddiol-safonol>

B. Canllawiau statudol drafft ar gyfer rhai cyrff cyhoeddus — *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio* — fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

55. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cofnod amgylchedd hanesyddol sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, a'i gadw'n gyfredol. Mae cofnod amgylchedd hanesyddol yn rhoi gwybodaeth fanwl am yr amgylchedd hanesyddol er budd ac at ddefnydd y cyhoedd.
56. Mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn i'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru gyflawni'r ddyletswydd hon ar eu rhan, ac mae gwaith paratoadol yn mynd rhagddo i ddod â'r darpariaethau i rym yn 2017.
57. Mae pob ymddiriedolaeth archeolegol yn cynnal cofnod amgylchedd hanesyddol rhanbarthol a, gyda'i gilydd, yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am Gymru gyfan. Mae'r cofnodion hyn yn ffrwyth llafur degawdau o waith ymchwil ac ymchwilio ac fe'u cynhelir a'u diweddarau yn unol â safonau cenedlaethol a rhyngwladol.
58. Mae Deddf 2016 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer rhai cyrff cyhoeddus yng Nghymru - awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru - ar y modd y gallant gyfrannu at y gwaith o lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol a sut y dylent ddefnyddio'r cofnodion wrth arfer eu swyddogaethau.
59. Mae'r canllawiau hyn, *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio* (Atodiad 1), yn egluro'r canlynol:
- ystyr cofnodion amgylchedd hanesyddol;
 - rolau a chyfrifoldebau sefydliadau allweddol;
 - rôl cyrff cyhoeddus o ran y gwaith o lunio'r cofnodion;
 - sut y dylai'r cyrff cyhoeddus ddefnyddio'r cofnodion wrth arfer eu swyddogaethau.
60. Nid yw'r canllawiau statudol hyn yn cynnwys gwybodaeth am y meincnodau a'r safonau y mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i ymddiriedolaeth gydymffurfio â hwy wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf 2016. Bydd y wybodaeth hon ar gael mewn dogfen arall maes o law.

C7.	A yw'r canllawiau statudol drafft, <i>Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio</i>, yn nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau'r cyrff cyhoeddus perthnasol? Sut y gellid gwella'r adran hon?
------------	--

C8.	A yw'r canllawiau statudol drafft, <i>Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio</i>, yn rhoi digon o arweiniad i gyrff cyhoeddus perthnasol ynghylch sut y gallant gyfrannu at y gwaith o lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol? Sut y gellid gwella'r adran hon?
------------	--

C9.	A yw'r canllawiau statudol drafft, <i>Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio</i>, yn nodi'n glir sut y dylai'r gyrff cyhoeddus perthnasol ddefnyddio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer eu swyddogaethau? Sut y gellid gwella'r adran hon?
------------	--

C. Canllawiau arfer gorau drafft: *Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru*

61. Mae *Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru* (Atodiad 2) yn ganllaw arfer gorau, sy'n ategu *Polisi Cynllunio Cymru* — Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol a *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*.
62. Mae'n amlinellu'r berthynas allweddol rhwng cyflwr adeilad, y defnydd a wneir ohono a'i berchenogaeth, a sut y gellir rheoli'r cydbwysedd gofalus rhwng yr elfennau hyn er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy.
63. Mae'r canllawiau'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau perchenogion, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'n dangos sut y gall polisïau a rhaglenni ar gyfer rheoli adeiladau rhestredig sydd mewn perygl fod yn llwyddiannus, ond hefyd yn egluro'r pwerau statudol sydd ar gael i warchod adeiladau rhestredig sydd mewn perygl os bydd angen eu defnyddio.
64. Er bod y canllawiau'n canolbwyntio ar adeiladau rhestredig sydd mewn perygl, gellir cymhwyso'r egwyddorion at reoli unrhyw adeilad hanesyddol sydd mewn perygl, fel y rhai hynny y nodwyd eu bod yn bwysig yn lleol. Mae rhai o'r pwerau statudol yn berthnasol i adeiladau rhestredig yn unig.
65. Anelir *Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru* yn bennaf at adrannau cadwraeth, cynllunio, tai, adfywio a datblygu awdurdodau lleol, yn ogystal ag adrannau Llywodraeth Cymru. Gall hefyd fod o ddiddordeb i berchenogion, deiliaid ac asiantau, yn ogystal â chymunedau lleol a sefydliadau'r trydydd sector sydd â rôl hollbwysig yn y gwaith o ofalu am adeiladau rhestredig sydd mewn perygl.

C10.	A fydd y canllawiau drafft, <i>Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru</i>, yn helpu i reoli adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl yn fwy effeithiol? Sut y gellid eu gwella?
-------------	---

C11.	A yw'r cyngor ar gyflwr, defnydd a pherchenogaeth yn y canllawiau drafft, <i>Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru</i>, yn cwmpasu'r prif faterion? Os nac ydyw, beth sydd ar goll?
-------------	---

D. Canllawiau arfer gorau drafft: *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru*

66. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Bydd y gofrestr hon yn disodli cofrestr anstatudol sy'n bodoli eisoes ac yn creu cofnod cynhwysfawr o safleoedd sy'n bodloni meini prawf diddordeb hanesyddol. Mae'r cofnodion ar y gofrestr anstatudol wrthi'n cael eu hadolygu gyda'r nod o ddod â darpariaethau Deddf 2016 i rym yn 2017.
67. Mae'r canllawiau arfer gorau drafft, *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* (Atodiad 3) yn nodi egwyddorion cyffredinol i'w dilyn wrth ystyried newidiadau a all gael effaith ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Mae'n egluro statws y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru a'i lle yn y system gynllunio, yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau perchenogion, awdurdodau cynllunio lleol, cymdeithasau amwynderau a Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw).
68. Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu'n bennaf at berchenogion parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, a'r asiantau sy'n gweithredu ar eu rhan. Byddant yn eu helpu i ddeall goblygiadau bod yn berchen ar barc neu ardd hanesyddol sy'n gofrestredig a rheoli'r newidiadau sy'n effeithio arno/arni. Gall perchenogion a rheolwyr ddefnyddio *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* hefyd fel canllaw arfer gorau er mwyn gofalu am safleoedd cofrestredig. Mae'r egwyddorion a'r arferion yn berthnasol i'r holl barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru, p'un a ydynt yn gofrestredig ai peidio.
69. Mae *Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru* yn ategu *Polisi Cynllunio Cymru* - Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol a *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*.

C12.	A yw'r canllawiau drafft, <i>Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru</i>, yn esbonio'n glir y goblygiadau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar barc neu ardd hanesyddol sydd wedi'i gynnwys/wedi'i chynnwys ar y gofrestr statudol? Sut y gellid eu gwella?
-------------	---

C13.	A fydd <i>Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru</i> yn helpu perchenogion a'u hasiantau i reoli parciau a gerddi hanesyddol er mwyn cyflawni newid sensitif o ansawdd uchel? Sut y gellid eu gwella?
-------------	---

E. Canllawiau arfer gorau drafft: *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*

70. Mae *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru* (Atodiad 4) yn ganllaw arfer gorau sy'n ategu *Polisi Cynllunio Cymru* — Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol a *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*. Mae hefyd yn nodi sut y gall dealltwriaeth o nodweddion hanesyddol gael ei defnyddio mewn sawl ffordd y tu hwnt i'r system gynllunio.
71. Mae'r ddogfen ganllaw yn egluro pwysigrwydd cydnabod nodweddion hanesyddol a'u defnyddio fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwaith cadwraeth, adfywio a chynllunio. Mae'n dangos sut y gall polisïau a rhaglenni ar gyfer rheoli newid gymryd ysbrydoliaeth o'r gorffennol er mwyn helpu i greu a chynnal llefydd nodedig ar gyfer y dyfodol.
72. Nid yw *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru* yn pennu haen arall o weithgarwch dynodi neu ganiatâd, ond mae'n annog y defnydd gorau o'n hamgylchedd hanesyddol er mwyn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn golygu rheoli newid mewn ffordd gynaliadwy yn hytrach na'i atal.
73. Anelir *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru* yn bennaf at adrannau cadwraeth, cynllunio, tai, adfywio a datblygu awdurdodau lleol, yn ogystal ag adrannau Llywodraeth Cymru. Bydd y canllawiau o ddiddordeb i gymunedau lleol a sefydliadau'r trydydd sector sydd â rôl hollbwysig yn y gwaith o nodi nodweddion hanesyddol lleol, eu hyrwyddo a gofalu amdanynt.

C14.

A yw'r canllawiau drafft, *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*, yn esbonio'n glir beth yw nodwedd hanesyddol? Sut y gellid eu gwella?

C15.

A yw'r canllawiau drafft, *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*, yn rhoi digon o wybodaeth i gefnogi'r gwaith o reoli nodweddion hanesyddol yn effeithiol? Os nac ydyw, beth sydd ar goll?